


# Paratoi at **Argyfyngau…**

South Wales Local Resilience Forum

Fforwm Gwydnwch Lleol De Cymru

# Pam dylech baratoi at argyfyngau?

## Mae argyfyngau'n digwydd...

Bydd adegau pan y gallai argyfwng effeithio arnoch, ond nad oes perygl uniongyrchol i'ch bywyd. Yn ystod yr adeg honno, mae angen i chi wybod sut i'ch helpu chi eich hun a'r bobl o'ch amgylch.

Nod y llyfryn hwn yw eich helpu chi, eich teulu, eich cymuned neu eich busnes i baratoi ar gyfer effeithiau digwyddiadau sy'n amharu ar ein bywydau bob dydd, ymateb i'r digwyddiadau hynny ac adfer yn eu sgîl.



# Beth dylech ei wneud mewn argyfwng?

## Dylech wneud y canlynol...

- Ffoniwch 999 os oes perygl angau
- Dilynwch gyngor ymatebwyr argyfwng lleol
- Pwyllwch cyn gweithredu
- Peidiwch byth â rhoi eich hun nac eraill mewn perygl diangen
- Ceisiwch fynd i fan diogel os yw'n bosibl – efallai na fydd eich cartref yn ddiogel
- Archwiliwch am anafiadau – cofiwch helpu eich hun cyn ceisio helpu eraill
- Dylech geisio cysuro pobl eraill o'ch cwmpas

## Pwy yw'r 'ymatebwyr argyfwng lleol'?

Nhw yw'r sefydliadau sy'n ymateb i argyfyngau yn eich ardal leol, gan gynnwys y gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, yn ogystal â'ch awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, asiantaethau gwirfoddol a sefydliadau eraill.

## Os nad ydych yn rhan o'r digwyddiad, ond yn agos gerllaw neu'n tybio y gallech fod mewn perygl, dylech wneud y canlynol:

**Ewch i mewn:** ewch i mewn i adeilad a chadwch draw o'r drysau a'r ffenestri.
**Arhoswch i mewn:** arhoswch y tu mewn i adeilad gyhyd ag y bo'n ddiogel gwneud hynny.
**Mynnwch newyddion:** defnyddiwch eich gorsaf radio leol, y teledu a'r rhyngrwyd i gael newyddion diweddaraf am y digwyddiad. Bydd ymatebwyr argyfwng lleol yn defnyddio'r rhain i roi gwybodaeth i chi am y sefyllfa. Bydd defnyddio radio weindio yn golygu na fyddai'n  rhaid i chi ailosod batris pe bai toriad i'r cyflenwad trydan.





# Sut gallwch gael rhagor o wybodaeth am y risgiau yn eich ardal?

## Gall fod llawer o fathau o argyfyngau...

gan gynnwys damweiniau ffordd a thanau mewn tai sy'n effeithio ar nifer fach o bobl, neu doriadau i'r cyflenwad trydan ar raddfa fawr, llifogydd neu ffrwydrad a all effeithio ar filoedd ar filoedd o bobl. Dylem baratoi ar gyfer effeithiau pob math o argyfwng. Rhan o hyn yw deall y risgiau gwahanol a wynebwn, a'u heffeithiau tebygol.

## Y risgiau sy'n effeithio arnoch chi yn eich cartref a'r cyffiniau

Gall pawb nodi'r risgiau yn ein cartrefi a'r cyffiniau, a'r risgiau a wynebir gan ein teuluoedd. Dylem fod yn ymwybodol o'r perygl o dân yn y cartref, defnyddio offer pweredig neu storio cemegau yn y cartref. Yn ogystal, gallai eich eiddo fod mewn ardal sy'n wynebu'r perygl o lifogydd. Gallwch gael gwybod os ydych mewn ardal sy'n wynebu'r perygl o lifogydd a chael cyngor ar beth i'w wneud drwy ffonio'r Llinell Rybuddion Llifogydd ar 0845 988 1188.

## Y risgiau sy'n effeithio ar eich ardal leol

Mae ymatebwyr argyfwng lleol yn cyfarfod yn rheolaidd fel 'Fforwm Lleol Cymru Gydnerth'. Mae'r grŵp hwn, o Ardal Heddlu De Cymru, yn cydlynu'r trefniadau cynllunio ar gyfer argyfyngau sy'n effeithio ar eich ardal leol. Maent yn asesu'r risgiau a allai effeithio ar eich ardal leol, ac yn cyhoeddi Cofrestr Risgiau Cymunedol.

I weld y gofrestr risgiau leol ewch i www.swlrf.co.uk

**Llenwch y tabl isod gan nodi rhai o'r risgiau sy'n effeithio ar eich cartref neu'ch ardal, a disgrifiwch y camau i'w cymryd mewn argyfwng:**

| Risg | Cam Gweithredu |
|---|---|
| e.e. tywydd garw | Monitro'r rhagolygon tywydd, radio, teledu. |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Pa fathau o argyfyngau y gallwch baratoi ar eu cyfer?

## Argyfyngau y gwyddom y byddant yn digwydd...

Yn aml cawn rybudd ymlaen llaw bod rhai argyfyngau yn mynd i ddigwydd, a gallwn gymryd camau i baratoi ein hunain ar eu cyfer.

Er enghraifft;

- paratoi ar gyfer tywydd garw drwy fonitro rhagolygon tywydd, rhybuddion llifogydd
- gwrando am wybodaeth am achosion o afiechydon cyn iddynt ledaenu'n ehangach
- cael y newyddion diweddaraf am anghydfodau diwydiannol

Mae peryglon naturiol, megis llifogydd ac achosion eraill o dywydd garw, yn effeithio ar y DU yn rheolaidd. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol, yn ogystal ag achosi difrod i adeiladau a rhwydweithiau trafnidiaeth, y gallant hefyd achosi toriadau eang i gyflenwadau nwy, trydan a dŵr a rhwydweithiau telathrebu, a weithiau gall achosion o'r fath effeithio ar ardaloedd sy'n bell i ffwrdd o ardal y digwyddiad.

Gall streiciau ac achosion eraill o weithredu diwydiannol amharu ar gyflenwadau cyfleustodau a chyflenwi bwyd a thanwydd. Gall achosion eang o afiechydon dynol neu anifeiliol amharu'n sylweddol ar fywyd bob dydd hefyd.

## Argyfyngau annisgwyl...

Mae'n amhosibl rhagweld rhai digwyddiadau, a gallant ddigwydd yn ddirybudd. Gan hynny, mae'n hanfodol sicrhau eich bod mor barod â phosibl am effeithiau'r argyfyngau hyn.

Digwyddiadau megis:

- damweiniau diwydiannol
- toriadau i gyflenwadau tanwydd ac ynni
- achosion anfwriadol o ryddhau deunyddiau peryglus i'r atmosffer
- ffrwydradau a thanau mawr

Bydd y DU yn parhau i fod yn darged ar gyfer bygythiadau maleisus o bob math, gan gynnwys troseddu cyfundrefnol, seibrymosodiadau, ac ymosodiadau Cemegol, Biolegol, Radiolegol, Niwclear neu Ffrwydrol (CBRNE). Gall yr ymosodiadau hyn ganolbwyntio ar ardal fach, ond gallant effeithio ar ardal eang, megis amharu ar gyflenwi ynni a thanwydd a rhwydweithiau telathrebu a thrafnidiaeth.






***"Os ydych yn gweld bod draeniau neu sianeli draenio wedi'u blocio, dywedwch wrth eich Cyngor Lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru".***

# Beth allwch ei wneud i atal argyfwng?

Yn ogystal â pharatoi i leihau effeithiau argyfyngau pan fyddant yn digwydd, mewn rhai amgylchiadau, mae camau y gallwch eu cymryd i leihau'r tebygolrwydd y bydd rhai argyfyngau'n digwydd o gwbl.

## Beth allwch ei wneud i atal tanau damweiniol yn eich cartref?

Mae archwiliadau diogelwch tân ar gael yn ddi-dâl gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae ei rif cyswllt (nid 999) ar gael yn eich cyfeiriadur ffôn lleol. Fel arall, mae'r wefan **www.direct.gov.uk/firekills** yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i drefnu asesiad, a rhagor o wybodaeth gyffredinol ar sut i atal tân yn y cartref. Gallwch drefnu archwiliad diogelwch tân drwy'r rhif rhadffôn awtomatig **0800 169 1234**, neu drwy anfon neges destun i **88365**.

## Beth allwch ei wneud i helpu atal llifogydd yn eich ardal leol?

Os ydych yn gweld bod draeniau neu sianeli draenio wedi'u blocio, cysylltwch â'ch Cyngor Lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn rhoi cyngor i chi ar yr hyn y gallwch ei wneud.

## Beth allwch ei wneud i helpu atal ymosodiad gan derfysgwyr?

Cadwch yn wyliadwrus – cadwch lygad am ymddygiad, cerbydau neu becynnau amheus. Gallai terfysgwyr ymosod ar unrhyw bryd. Mae mannau cyhoeddus yn dargedau amlwg, yn enwedig mannau lle mae pobl yn ymgynnull neu'n teithio. Ffoniwch 999 os ydych yn amau bod perygl uniongyrchol, neu ffoniwch Linell Gymorth Gwrth-derfysgaeth yr Heddlu ar **0800 789 321** i roi gwybod am ymddygiad amheus.

Cofiwch, **rhowch wybod i'r awdurdodau am eich amheuon.**

# Beth allwch ei wneud i baratoi ar gyfer argyfwng?

## Gall argyfwng ddigwydd ar unrhyw adeg ac yn unrhyw le...

Gallwch fod yn y cartref, yn y gwaith, neu hyd yn oed ar wyliau. Er bod ystod eang o ddigwyddiadau a allai effeithio ar y DU, mae effeithiau'r digwyddiadau hynny yn aml yn weddol debyg i'w gilydd. Yn yr hirdymor, gall y rheini yr effeithir arnynt gael anawsterau o ran cael gafael ar ddogfennau pwysig megis manylion yswiriant a manylion banc, a gallai fod angen cymorth gan y gwasanaethau statudol, er enghraifft, os byddwch yn mynd yn ddigartref. Fodd bynnag, gallwch gymryd rhai camau syml iawn i'ch paratoi chi a'ch teulu'n well i ymdopi ag argyfyngau.

## Paratoi ar gyfer unrhyw argyfwng:

- Mynnwch wybod sut i gael newyddion gan eich gorsaf radio leol, y teledu a'r rhyngrwyd
- Cynlluniwch sut fydd eich teulu'n cadw mewn cyswllt mewn argyfwng – cofiwch efallai na fydd eich ffôn yn gweithio
- Byddwch yn barod i ddiffodd offer trydanol – os bydd toriad i'r cyflenwad trydan a bod llawer o offer yn ailddechrau ar yr un pryd pan gaiff y cyflenwad ei adfer, gall hynny orlwytho'r system.
- Casglwch ynghyd yr eitemau hanfodol y gallai fod eu hangen arnoch mewn argyfwng, megis meddyginiaethau hanfodol
- Siaradwch â'ch cymdogion a'ch ffrindiau i weld a ydych yn gallu eu helpu, neu a ydynt yn gallu eich helpu chi i baratoi at argyfyngau



*“Siaradwch â’ch cymdogion a’ch ffrindiau i weld a ydych yn gallu eu helpu, neu a ydynt yn gallu eich helpu chi i baratoi at argyfyngau”.*



# Beth allwch ei wneud i baratoi at argyfwng?

## Paratoi ar gyfer gorfod aros yn eich cartref:

- Paratowch gynllun argyfwng ar gyfer eich cartref. (Mae cynllun templed ar gael ar gefn y llyfryn hwn i'ch roi ar ben y ffordd)
- Dylech sicrhau eich bod yn gwybod lle i ddod o hyd i dortshis a blancedi, pe bai toriad i'r cyflenwad trydan
- Cadwch radio weindio yn eich cartref er mwyn gallu cael y newyddion diweddaraf am yr argyfwng
- Cadwch gyflenwad o fwydydd parod (e.e. bwyd mewn tun) a dŵr yfed ar gyfer eich teulu rhag ofn na fyddwch yn gallu gadael eich cartref am nifer o ddiwrnodau

- Dylech ystyried prynu ffôn llinell dir a bwerir gan y llinell ffôn (h.y. ffôn sydd dim ond angen ei gysylltu â soced ffôn) - bydd ffonau o'r fath yn aml yn gweithio heb brif gyflenwad trydan

## Beth os byddwch yn y gwaith pan fydd argyfwng yn digwydd?

- Mae cyflogwyr yn gyfrifol am sicrhau diogelwch eu staff. Dylai fod gan fusnesau drefniadau ar waith i ymdrin ag effeithiau argyfyngau. Sicrhewch eich bod yn deall yr hyn sydd angen i chi ei wneud mewn argyfwng yn y gwaith
- Meddyliwch am eich taith i'r gwaith a'r daith adref. Sut byddech yn cyrraedd adref pe na byddai'ch llwybr arferol ar gael? Pa drefniadau amgen y byddai angen i chi eu gwneud ar gyfer gofal plant ac ymrwymiadau eraill?
- Os ydych yn berchen ar fusnes neu'n rhedeg busnes ac yr hoffech gyngor ar gynllunio at argyfwng neu barhad busnes, cysylltwch ag adran gynllunio at argyfwng eich cyngor lleol

## Beth am eich plant yn yr ysgol?

- Os bydd eich plant yn yr ysgol pan fydd argyfwng yn digwydd, gall fod yn fwy diogel iddynt aros yno
- Mae gan bob ysgol gynlluniau i ymdopi ag argyfyngau lleol megis tanau a llifogydd. Bydd athrawon a staff cymorth yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ofalu am y disgyblion sydd dan eu gofal
- Mae'n bosibl yr hoffech holi ysgol eich plentyn am fanylion eu cynlluniau i ymdrin ag argyfwng. Yna gallwch gynnwys y cynlluniau hyn ym mharatoadau eich teulu eich hun
- Byddwch yn barod i wrando ar eich gorsaf radio leol am gyngor a manylion trefniadau eich cyngor lleol i roi gwybod i rieni pryd i gasglu eu plant o'r ysgol

# Sut allwch helpu mewn argyfwng?

## Gall gwybod rhai sgiliau cymorth cyntaf sylfaenol eich helpu i ymdrin ag argyfwng...

Efallai mai eich perthnasau neu eich ffrindiau fydd yn cael eu trin gennych.

## Dyma rai pwyntiau i'w cofio pan fo angen cymorth cyntaf ar rywun:

- Cadwch eich pwyll a chadwch lygad am unrhyw beth sy'n beryglus i chi neu'r person anafedig
- Ceisiwch ddarganfod beth ddigwyddodd
- Faint o bobl a anafwyd?
- A oes unrhyw un gerllaw sy'n gallu helpu?
- Ffoniwch 999 cyn gynted â phosibl

Pan fo mwy nag un person wedi'u hanafu, ewch i'r un tawelaf yn gyntaf.  Mae'n bosibl ei fod yn anymwybodol a bod angen sylw arno ar unwaith.

Mae dysgu cymorth cyntaf yn hawdd. Gellir trefnu cyrsiau drwy Asiantaethau Gwirfoddol lleol megis y Groes Goch Brydeinig, sef cyrsiau y gellir eu cynnal yn lleol ar gyfer eich cymuned neu fusnes.

Am ragor o wybodaeth am gyrsiau cymorth cyntaf ewch i **www.redcross.org.uk**

# Beth all eich cymuned ei wneud i baratoi at argyfyngau?

Mae’n bosibl y byddwch yn dymuno siarad â thîm cynllunio at argyfwng eich cyngor lleol i gael gwybod sut i greu Cynllun Argyfwng Cymunedol. Dyma lle y gall gwirfoddolwyr o’ch cymuned leol roi trefniadau argyfwng lleol ar waith i gynorthwyo gwaith ymatebwyr argyfwng lleol yn ystod argyfwng yn eich cymuned. (Mae cynllun templed ar gael yng nghefn y llyfryn hwn i’ch roi ar ben y ffordd).

Mae’n bosibl y bydd gan sefydliadau lleol amlwg, megis cymunedau ffydd, strwythurau cydnerthedd ar waith eisoes. Mae llawer o gymunedau yn helpu ei gilydd mewn angen, ac mae profiad blaenorol wedi dangos mai’r rheini sydd wedi treulio amser yn cynllunio a pharatoi ar gyfer hyn sy’n gallu ymdopi’n well ag argyfyngau cenedlaethol a lleol, ac adfer yn eu sgîl yn gyflymach hefyd.

Am ragor o wybodaeth ar sut i lunio Cynllun Argyfwng Cymunedol, ewch i’r gwe-dudalennau Paratoi at Argyfyngau yn **www.direct.gov.uk/preparingforemergencies** neu cysylltwch ag adran cynllunio at argyfwng eich Cyngor.

## Natur gymdogol

Gall gwirfoddoli amser wneud gwahaniaeth mawr i’r rheini sy’n cael anawsterau yn ystod argyfyngau. Gallwch wneud gwahaniaeth drwy helpu i gadw palmentydd yn glir i atal pobl rhag llithro neu gwympo ar eira neu iâ, neu sicrhau bod cymdogion oedrannus yn gynnes, yn iach a bod ganddynt ddigon o fwyd.  Gall pobl sy’n meddu ar sgiliau ymarferol, er enghraifft meddyg coed, fod o gymorth o ran clirio malurion ar ôl tywydd garw. Gellir cynnwys y wybodaeth hon yn y cynllun argyfwng cymunedol.


HEDDLU
POLICE
HEDDLU
POLICE

# Beth mae ymatebwyr argyfwng lleol yn ei wneud i baratoi ar gyfer argyfyngau?

Mae'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr eraill yn barod i ymateb i bob math o argyfwng, boed yn argyfwng yn eich cartref, argyfwng yn y gwaith neu argyfyngau sy'n effeithio ar rwydweithiau trafnidiaeth.

Mae hyfforddiant rhagorol ac offer a chyfarpar o'r radd flaenaf yn golygu bod ymatebwyr argyfwng y DU ymhlith y gorau yn y byd. Mae cynlluniau argyfwng wedi'u paratoi ym mhob ardal o'r DU.

Bob blwyddyn, cynhelir llawer o ymarferion sy'n cynnwys ymatebwyr argyfwng lleol a'r holl asiantaethau sy'n gyfrifol am baratoi at argyfyngau. Mae'r ymarferion hyn yn gyfle i ymarfer yr ymateb i amryw o argyfyngau, drwy brofi cynlluniau a pharodrwydd am argyfwng.



# CYNLLUN ARGYFWNG YN Y CARTREF

## Bydd y templed hwn yn eich helpu chi a'ch teulu i baratoi at argyfwng.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHIFAU CYSWLLT MEWN ARGYFWNG** | | | |
| Cadwch y rhestr hon wrth law, a gwnewch gopïau ychwanegol os oes angen. Cadwch gopi ger eich ffôn cartref, a storiwch y rhifau yn eich ffonau symudol. | | | |
| Gwasanaethau Brys | 999 | Cyngor Lleol | |
| Galw Iechyd Cymru | 0845 4647 | Meddygon | |
| Llinell Rybuddion Llifogydd | 0345 988 1188 | Deintydd | |
| Ymholiadau Heddlu nad ydynt yn rhai brys | 101 | Ysbyty | |
| Nwy'n Gollwng | 0800 111 999 | Yswiriant Cartref | |
| Toriadau Cyflenwadau Pŵer | 0800 052 0400 | Yswiriant Car | |
| Gwaith | | Ysgol | |
| Gwaith | | Ysgol | |
| Dŵr Cymru – Gwasanaethau dŵr ac argyfyngau (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) | | | 0800 052 0130 |
| Dŵr Cymru – Gwasanaethau carthffosiaeth ac argyfyngau (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) | | | 0800 085 3968 |
| Dŵr Cymru – Rhoi gwybod am ddŵr yn gollwng (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) | | | 0800 281 432 |
| Dŵr Cymru – Cadarnhau manylion cerdyn adnabod swyddogion sy'n ymweld (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) | | | 0800 281 141 |
| Dŵr Cymru – Gwasanaeth testun ar gyfer cwsmeriaid sydd ag anawsterau clyw a lleferydd | | Ffôn:<br>Ffôn testun: : | 18002 a'r rhif rydych am ei alw<br>18001 a'r rhif rydych am ei alw |

| | |
|---|---|
| **Ble byddwn yn cwrdd? Os oes rhaid i chi adael eich cartref, os nad ydych yn gallu cyrraedd adref, neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'ch gilydd, dewiswch ddau fan lle gallwch gwrdd. Un gerllaw, ac un ychydig ym mhellach i ffwrdd rhag ofn y bydd yr argyfwng yn effeithio ar ardal ehangach.** | |
| Man gerllaw: | |
| Man y tu hwnt i'r ardal uniongyrchol: | |
| **Beth os nad ydym yn gallu cyrraedd yno? Dewiswch ffrind y gallwch gysylltu ag ef i ddweud eich bod yn ddiogel** | |
| Enw:<br>Rhif Ffôn: | Cyfeiriad:<br>Ffôn Symudol: |
| **Ble allwn ni aros? Os oes rhaid i chi adael eich cartref, gallwch aros gyda ffrindiau neu deulu. Dylai fod dau le gwahanol ar gael.** | |
| Enw:<br>Rhif Ffôn: | Cyfeiriad:<br>Ffôn Symudol: |
| Enw:<br>Rhif Ffôn: | Cyfeiriad:<br>Ffôn Symudol: |
| **Ble a sut ydym ni'n diffodd y canlynol? Dylech ond wneud hyn os oes amser gennych i wneud hynny.** | |
| Dŵr | |
| Nwy: | |
| Trydan: | |
| A fydd angen help ar gymydog? | |
| Enw:<br>Rhif Ffôn: | Cyfeiriad:<br>Ffôn Symudol: |

| **BAG ARGYFWNG: Dylech geisio paratoi bag argyfwng. Mae bag argyfwng yn dal gwybodaeth ac eitemau hanfodol a allai fod yn ddefnyddiol mewn argyfwng. Dylai'r bag fod yn ddigon bach i'w gario, a'i storio mewn man diogel lle gall aelodau'r teulu ddod o hyd iddo. Dylid archwilio'r bag yn rheolaidd, a gallai gynnwys y canlynol:** |
|---|
| Copi o'r cynllun argyfwng hwn |
| Manylion eitemau presgripsiwn rheolaidd eich teulud |
| Copi papur o'r rhifau ffôn defnyddiol |
| Gwefrydd ffôn symudol |
| Dogfennau pwysig (e.e. pasbort, tystysgrifau yswiriant ac ati) |
| hifau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gall derbynnydd eich meddyg teulu roi'r rhain i chi) |
| Gwybodaeth gyfrifiadurol bwysig wedi'i gadw ar ddisg neu USB |
| Pethau ymolchi |
| Pecyn Cymorth Cyntaf |
| Poteli dŵr, byrbrydau |
| Radio weindio neu radio a bwerir gan fatris, gan gynnwys batris sbâr |
| Tortsh weindio neu dortsh batri, gan gynnwys batris sbâr |
| Llyfr nodiadau a phen/pensil |
| Allweddi hanfodol (e.e. y cartref / car / gwaith) |
| Eitemau arbennig e.e. sbectol / lensys cyffwrdd, eitemau ar gyfer babanod, plant, yr henoed a'r anabl |
| Arian parod / cardiau debyd / credyd |



# CYNLLLUN ARGYFWNG CYMUNEDOL

## Bydd y templed hwn yn helpu eich cymuned i baratoi ar gyfer argyfwng.

# CYNLLUN ARGYFWNG CYMUNEDOL

| **ARDAL Y GYMUNED:** | |
|---|---|
| Arweinydd y Cynllun: | |
| Cyfeiriad: | |
| Dirprwy Arweinydd y Cynllun Llifogydd: | |
| Cyfeiriad: | |

| **CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw | Cyfeiriad | Ffôn | E-bost |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# CYN DIGWYDDIAD

## Atal digwyddiad

**IMae'n bwysig bod y grŵp cymunedol yn monitro'r ardal leol. Rhowch wybod am unrhyw broblemau rydych yn sylwi arnynt.**

| | |
|---|---|
| **Y Gwasanaethau Brys:** | 999 |
| **Llinell gymorth Cyfoeth Naturiol Cymru:** | 0800 80 70 60 |
| **Non-emergency number:** | 101 |

# YN YSTOD ARGYFWNG

## Camau Gweithredu Cymunedol

**IECHYD A DIOGELWCH**

- Ar bob adeg: Aseswch y sefyllfa a'r risgiau Iechyd a Diogelwch
- Peidiwch â chyflawni gweithred os nad yw'n ddiogel gwneud hynny
- RHAID i bawb mewn grŵp eu diogelu eu hunain drwy beidio â mynd i mewn i lifddwr na gwneud unrhyw weithgaredd a allai achosi niwed

- Gwisgwch ddillad llachar os ydynt ar gael
- Ffoniwch 999 os oes unrhyw un yn gaeth neu mewn perygl, ac arhoswch am gyfarwyddiadau gan y gwasanaethau brys

## Rhybudd

| | |
|---|---|
| 1. Rhybuddiwch holl aelodau grŵp cymunedol fod y cynllun wedi'i roi ar waith | Arweinydd y cynllun neu ei Ddirprwy |
| 2. Dechreuwch drwy ddefnyddio eich Cynllun Argyfwng Cartref eich hun | Pob aelod o'r grŵp |
| 3. Os bydd llifogydd yn digwydd, cofnodwch arsylwadau ohonynt a ffoniwch yr Awdurdod Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. | Aelod etholedig |
| 4. Hysbyswch eich cymdogion, a chynnig cymorth iddynt os yw'n ddiogel gwneud hynny | Pob aelod o'r grŵp |
| 5. Cysylltwch â'r Gwasanaethau Brys | Pob aelod o'r grŵ |
| 6. Paratowch i wacáu'r gymuned | Pob aelod o'r grŵp |
| 7. Gweithredwch fel pwynt cyswllt rhwng y grŵp a'r gwasanaethau brys | Arweinydd y cynllun neu ei Ddirprwy |

# Sgript i ffonio'r asiantaethau ymateb:

**Dylai'r sgript hwn gael ei ddefnyddio gan un unigolyn yn y gymuned. Nod y sgript yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r asiantaethau ymateb mewn argyfwng, a lleihau nifer y galwadau a dderbynnir gan yr asiantaethau.**

## Rhowch eich manylion cyswllt a'ch lleoliad tebygol.

| **Y wybodaeth i'w chyflwyno** | |
|---|---|
| **CWESTIYNAU** | **NODIADAU** |
| **Gwybodaeth leol:** | |
| Natur y Digwyddiad | |
| Y mater sy'n peri pryder (Cemegau, peryglon ac ati) | |
| Lleoliad preswylwyr sy'n agored i niwed | |
| Y camau a gymerwyd hyd yma | |

# AR ÔL DIGWYDDIAD

## Ar ôl y digwyddiad, dylai arweinydd y cynllun gofnodi ei brofiad o'r digwyddiad yn y blwch isod.

# Dolenni defnyddiol ar gyfer rhagor o wybodaeth

## Gwefannau

Y Swyddfa Dywydd
Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Swyddfa Gabinet
Newyddion/tywydd y BBC

*Nodwch gyfeiriad gwefan eich Cyngor yma:*

## Eich gorsafoedd radio lleol

e.e.
Heart
Capital South Wales
BBC Cymru

## Y cyfryngau cymdeithasol

**Twitter:**
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru **@SWFireandRescue**
Heddlu De Cymru **@swpolice**
Cyfoeth Naturiol Cymru **@NatResWales**
Dŵr Cymru **@DwrCymru**
Y Swyddfa Dywydd **@metofficeUK**

*Nodwch gyfrif twitter eich Cyngor yma:*